

*Patrwm cyflwyno* O fis Mai i fis Ionawr

### *Disgrifiad o'r modiwl*

Mae dysgu'n digwydd drwy'r amser ac mewn pob math o sefyllfaoedd yn cynnwys y gweithle, ond ni chaiff ei gydnabod bob amser. Mae astudio'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i gael credyd academaidd am ddysgu yn y gwaith fel rhan o'u prentisiaeth gradd. Bydd yn berthnasol iawn i'w gyrfa, gan y bydd yn meithrin eu sgiliau ymarferol a phroffesiynol a'u gwybodaeth drwy gwblhau gweithgareddau go iawn yn y gwaith sydd wedi'u cynllunio i'w helpu i wella eu perfformiad yn y gwaith. Mae'n rhaid i fyfyrwyr gael eu cyflogi gan sefydliad sydd mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yn y rhaglen Prentisiaeth Gradd. Bydd y sefydliad yn penodi goruchwyliwr yn y gweithle a fydd yn dilysu, ond nid asesu rhywfaint o'r gwaith ar gyfer y modiwl. Bydd y cyflogwr yn neilltuo amser astudio i'r myfyriwr ar gyfer y modiwl, mynediad at adnoddau a phrofiad gwaith priodol.

### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- diddordeb amlwg mewn dysgu yn y gweithle ac ymarfer myfyriol
- gwybodaeth am gynllunio datblygiad gyrfa
- gwybodaeth am gyflogadwyedd/sgiliau allweddol/trosglwyddadwy
- y gallu i helpu ac arwain myfyrwyr i ddysgu o'u hymarfer a chymhwyso'r hyn maent yn ei ddysgu at eu hymarfer
- dealltwriaeth o'r cysyniad o brentisiaethau gradd

Byddwch yn gwneud y canlynol:

- bydd disgwyl i chi roi cymorth i fyfyrwyr drwy fforymau ar-lein, drwy e-bost a thros y ffôn er mwyn eu helpu i gysylltu eu profiadau gwaith a'u gweithgareddau â chysyniadau modiwl o ymarfer myfyriol, meithrin eu datblygiad academaidd ar lefel AU a'u datblygiad proffesiynol.
- bydd disgwyl i chi gyfrannu at sesiynau addysgu mewn grwpiau yn unol â strategaeth addysgu mewn grwpiau y modiwl
- marcio a rhoi adborth ar aseiniadau

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- gwybodaeth am y safon a'r cynllun asesu ar gyfer y Brentisiaeth Gradd Broffesiynol mewn Atebion Digidol a Thechnoleg.

### *Gwybodaeth ychwanegol*

Yr iaith addysgu yw Saesneg a dylai eich hyfedredd yn Saesneg fod yn ddigonol i fodloni holl ofynion y rôl.

Dylech feddu ar gyfrifiadur eich hun â mynediad i'r rhynggrwyd.

*Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7

*Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.*